Cyllid &
Thollau EM

**Date** 20 Medi 2019

Annwyl gwsmer,

Rydym yn ysgrifennu atoch oherwydd bod ein cofnodion yn dangos bod eich busnes wedi cofrestru ar gyfer TAW a'ch bod yn masnachu â'r UE a gweddill y byd. Mae hyn yn golygu y bydd newidiadau'n effeithio arnoch pan fydd y DU yn gadael yr UE ar 31 Hydref 2019.

Gan eich bod eisoes yn masnachu â gwledydd y tu allan i'r UE, bydd Rhif Cofrestru ac Adnabod Gweithredwyr Economaidd (EORI) yn y DU gennych, sy'n dechrau gyda'r llythrennau 'GB'. Bydd angen hwn arnoch ar gyfer mewnforio ac allforio pan fyddwn yn gadael yr UE.

Os ydych yn delio â phrosesau tollau aelod-wladwriaethau'r UE, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael rhif EORI yn yr UE hefyd. I gael gwybod a oes angen rhif EORI yn yr UE arnoch, darllenwch ein taflen chwalu chwedlau EORI – ewch i **www.gov.uk/government/publications/hmrc-brexit-communications-resources**

### Y camau nesaf y mae angen i chi eu cymryd er mwyn paratoi ar gyfer Brexit

Unwaith y bydd gennych eich rhif EORI sy'n dechrau gyda 'GB', mae rhagor o bethau y gallwch eu gwneud i baratoi'ch busnes.

Gallwch wneud y canlynol:

- defnyddio'r rhestr wirio dros y dudalen i ddechrau gweithio drwy'r camau a'r penderfyniadau y mae angen i chi eu gwneud nawr
- mynd ar-lein i ddod o hyd i ganllawiau cam wrth gam manylach
  - yn achos mewnforwyr, ewch i **www.gov.uk/prepare-import-to-uk-after-brexit** – rydym yn argymell eich bod yn siarad â'r person sy'n eich helpu i wneud datganiadau tollau nawr
  - yn achos allforwyr, ewch i **www.gov.uk/prepare-export-from-uk-after-brexit** – a chanolbwyntio ar ddeall pa wybodaeth y bydd angen i chi ei rhoi i'r person rydych yn gwerthu nwyddau iddo, er mwyn iddo allu cwblhau'r trafodiad
- cael y diweddaraf am Brexit, gan gynnwys manylion gweminarau y byddwn yn eu cynnal sy'n sôn am fewnforio ac allforio â'r UE ar ôl 31 Hydref
  - cofrestrwch ar gyfer ein gwasanaeth e-bost, sy'n rhad ac am ddim, i gael y newyddion diweddaraf – ewch i **www.gov.uk/hmrc/business-support** gan ddewis yr opsiwn ar gyfer e-byst helpu ac addysgu busnesau, ac yna dewiswch Brexit

Yn gywir

**Jim Harra**
Dirprwy Brif Weithredwr, CThEM

Wedi'i dynnu'n ôl ar 31 Ionawr 2020

Llywodraeth EM

BREXIT 31 HYDREF

# Byddwch yn barod wrth i'r DU adael yr UE

Os ydych yn prynu unrhyw eitemau ar gyfer eich busnes o wledydd yn yr UE, neu'n gwerthu cynnyrch i gwsmeriaid yng ngwledydd yr UE, hyd yn oed os gwnewch hynny unwaith y flwyddyn yn unig, bydd trefniadau newydd ar gyfer mewnforio ac allforio yn effeithio arnoch ar ôl 31 Hydref.

Dechreuwch drwy ddilyn y camau isod i baratoi'ch busnes ar gyfer Brexit. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am y camau nesaf y bydd angen i chi eu cymryd wrth i 31 Hydref nesáu.

Wedi'i dynnu'n ôl ar 31 Ionawr 2020

## Ar eich marciau

- [X] Defnyddiwch y rhestr wirio hon i ddeall yr hyn y mae angen i chi ei wneud
- [ ] **Bydd angen rhif EORI yn y DU arnoch, sy'n dechrau gyda GB.** Ni fyddwch yn gallu symud nwyddau i mewn i'r DU ac oddi yno heb un, ac mae'n cymryd llai na deng munud i wneud cais
- [ ] Bydd angen ffurflenni tollau arnoch. Os ydych am symud eitemau i mewn i'r DU neu symud eitemau oddi yno, bydd angen sgiliau a meddalwedd arbenigol arnoch. Ewch ati i benderfynu a allwch wneud hyn eich hun, neu gofynnwch i arbenigwr tollau wneud hyn ar eich rhan
- [ ] Ewch i GOV.UK i ddod o hyd i arweiniad ynghylch Brexit a **help ar gyfer mewnforio** a **help ar gyfer allforio**

## Barod

**Os ydych yn prynu eitemau o wledydd yr UE er mwyn dod â nhw i'r DU:**

- [ ] **Gwnewch gais am weithdrefnau mewnforio symlach**, a elwir yn Weithdrefnau Symlach Dros Dro, er mwyn cael amser ychwanegol i gyflwyno'ch dogfennau tollau
- [ ] **Gwiriwch y doll** y bydd yn rhaid i chi ei thalu ar eitemau rydych yn dod â nhw i'r DU
- [ ] **Gwnewch gais am gyfrif ar-lein** i'w gwneud yn haws i dalu trethi

**Os ydych yn gwerthu cynnyrch i'r UE, bydd angen i chi wneud y canlynol:**

- [ ] Gwirio gyda'r bobl neu'r cwmni sy'n symud eich cynnyrch – er enghraifft, eich gwasanaeth postio neu'ch cludwr – i gael gwybod a oes angen rhagor o wybodaeth arnynt oddi wrthych er mwyn parhau i wneud hyn
- [ ] Gwirio bod y bobl rydych yn gwerthu cynnyrch iddynt yn barod i ddod â'ch nwyddau i mewn i'w gwlad, eu bod yn dilyn prosesau tollau'r wlad honno, a'u bod yn barod i anfon y gwaith papur perthnasol atoch (er enghraifft, y datganiad mewnforio)

## Ewch

**Rydych bellach wedi cymryd y camau cyntaf i baratoi'ch busnes ar gyfer Brexit**

- [ ] **Cofrestrwch i gael y diweddaraf oddi wrth CThEM am Brexit** er mwyn i ni allu rhoi gwybod i chi am y camau nesaf y bydd angen i chi eu cymryd

## Mae rhagor o wybodaeth ar GOV.UK **am Ogledd Iwerddon ac Iwerddon.**